Ombwdsmon
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

# Coflyfr

## Y Cod Ymddygiad

Rhifyn 19 Chwefror

# Cyflwyniad

Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ystyried cwynion bod aelodau awdurdodau lleol yng Nghymru wedi gweithredu'n groes i'r Cod Ymddygiad. Mae'r Ombwdsmon yn ymchwilio i gwynion o'r fath o dan ddarpariaethau Rhan III Deddf Llywodraeth Leol 2000 a'r Gorchmynion perthnasol a wneir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan y Ddeddf.

Pan fydd yr Ombwdsmon yn penderfynu y dylid ymchwilio i gŵyn, mae yna bedwar canfyddiad, sydd wedi'u nodi yn adran 69 Deddf Llywodraeth Leol 2000, y gall yr Ombwdsmon eu datgan:

(a) nad oes tystiolaeth bod unrhyw achos o weithredu'n groes i god ymddygiad yr awdurdod;

(b) nad oes angen cymryd unrhyw gamau mewn cysylltiad i'r materion a fu'n destun i'r ymchwiliad;

(c) bod angen cyfeirio'r mater i swyddog monitro'r awdurdod, i'w ystyried gan y pwyllgor safonau;

(ch) bod angen cyfeirio'r mater i Lywydd Panel Dyfarnu Cymru ar gyfer dyfarniad gan dribiwnlys (mae hyn yn digwydd mewn achosion mwy difrifol fel arfer).

Yn amgylchiadau (c) a (d) uchod, mae'n ofynnol i'r Ombwdsmon gyflwyno adroddiad am yr ymchwiliad i'r pwyllgor safonau neu dribiwnlys Panel Dyfarnu Cymru, yna byddant hwy'n ystyried y dystiolaeth a ganfuwyd gan yr Ombwdsmon, ynghyd ag unrhyw amddiffyniad a gyflwynir gan yr aelod dan sylw. Hwy hefyd fydd yn penderfynu a oes achos o weithredu'n groes i'r Cod ai peidio, ac os oes, pa gosb (os o gwbl) y dylid ei chyflwyno.

Mae'r Llyfr Achosion Cod Ymddygiad yn cynnwys crynodebau o'r adroddiadau hynny lle cafwyd un o'r canfyddiadau wedi'u gosod allan uchod. Er hynny, yn achos canfyddiadau (c) a (d), bydd y Coflyfr Cod Ymddygiad ond yn cynnwys crynodebau'r achosion hynny y mae gwrandawiadau wedi'u cynnal gan y pwyllgor safonau neu Banel Dyfarnu Cymru, a bod canlyniad y gwrandawiad hwnnw'n hysbys. Mae'r rhifyn hyn yn adrodd ar y cyfnod Hydref i Rhagfyr 2018.

Coflyfr
Y Cod Ymddygiad
Ombwdsmon
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU
Rhifyn 19 Chwefror 2019

# Cynnwys

Dim tystiolaeth o dorri'r cod ........ 3
Nid oes angen gweithredu ........ 5
Cyfeiriwyd at Bwyllgor Safonau ........ 8
Cyfeiriwyd at Banel Dyfarnu Cymru ........ 9

# Crynodebau Achosion

## Dim tystiolaeth o dorri'r cod

### Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent – Hybu cydraddoldeb a pharch
### Rhif yr Achos 201707024 – Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Hydref 2018

Gwnaeth Ms E gŵyn yn nodi efallai fod Cynghorydd ("y Cynghorydd") wedi torri'r Cod Ymddygiad drwy sefydlu tudalen ar y Cyfryngau Cymdeithasol a oedd, ym marn Ms E, yn targedu ei busnes mewn modd annheg. Fe wnaeth Ms E gwyno hefyd bod y Cynghorydd wedi cael e-bost na fyddai wedi'i gael fel arall a'i bod wedi rhannu cynnwys yr e-bost ar y dudalen ar y Cyfryngau Cymdeithasol.

Canfu'r Ombwdsmon bod y Cynghorydd wedi sefydlu'r dudalen ar y Cyfryngau Cymdeithasol yn breifat; doedd dim cyfeiriad at ei gwaith fel Cynghorydd ac nid oedd yn gysylltiedig â'r Cyngor mewn unrhyw ffordd. Roedd yr e-bost dan sylw wedi cael ei anfon at y Cynghorydd yn uniongyrchol. Doedd yr e-bost ddim wedi'i marcio'n gyfrinachol ac fe wnaeth y Cyngor gadarnhau y byddai'n rhannu'r math yma o wybodaeth ag unrhyw un a fyddai'n cwyno. Penderfyniad yr Ombwdsmon, o dan adran 69(4)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, oedd nad oedd unrhyw dystiolaeth fod yr aelod wedi torri'r Cod Ymddygiad.

### Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf – Dyletswydd i gynnal y gyfraith
### Rhif yr Achos: 201802132 – Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Tachwedd 2018

Gwnaeth Mr C gŵyn bod Cynghorydd ("y Cynghorydd") wedi torri'r Cod Ymddygiad pan lofnododd ddatganiad i'r heddlu yn nodi ei bod wedi gweld ffrae rhwng Mr B ac unigolyn arall. Dywedodd Mr B fod y Cynghorydd wedi tynnu'r wybodaeth yn ôl yn y llys ac na fyddai'r achos wedi mynd i'r llys oni bai am y datganiad hwnnw.

Canfu'r Ombwdsmon fod y datganiad a roddwyd yn ddidwyll a bod y cyfrif a roddwyd yn y llys mor debyg i'r gwreiddiol ei bod yn ymddangos mai dyna oedd y Cynghorydd yn ei gofio am y digwyddiad mewn gwirionedd. Penderfyniad yr Ombwdsmon, o dan adran 69(4)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000,  oedd nad oedd unrhyw dystiolaeth fod yr aelod wedi torri'r Cod Ymddygiad.

### Cyngor Cymuned Bugeildy - Datgelu a chofrestru buddiannau
### Rhif yr Achos: 201801874 – Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Rhagfyr 2018

Gwnaeth Ms B gŵyn bod Cynghorydd ("y Cynghorydd") wedi peidio â datgelu buddiant mewn cyfarfod pan gynhaliwyd trafodaeth am waith tirfesur ar ddraeniau wedi'u difrodi ar dir wrth ymyl tir roedd y Cynghorydd yn berchen arno. Hefyd, dywedodd Ms B fod y Cynghorydd heb ddangos parch tuag ati na'i chydnabod.

Fe wnaeth y Cynghorydd gydnabod ei fod wedi cael dadl frwd gyda Ms B ond dywedodd nad oedd yn bersonol ac nad oedd unrhyw falais rhyngddo a Ms B. Canfu'r Ombwdsmon bod y materion a godwyd gan y Cynghorydd o bwys gwleidyddol dilys, a rôl yr Ombwdsmon yw atal dadleuon gwleidyddol cadarn.

Er bod y mater a drafodwyd wedi cael effaith uniongyrchol ar dir y Cynghorydd ac y gallai, felly, fod yn achos o dorri'r Cod Ymddygiad, roedd arwyddocâd mwy helaeth i'r mater yn y gymuned. Felly, ei benderfyniad, o dan adran 69(4)(b) Deddf Llywodraeth Leol 2000, oedd nad oedd angen cymryd camau mewn perthynas â'r materion yr ymchwiliwyd iddynt.

Cyngor Sir Powys – Atebolrwydd a bod yn agored
Rhif yr Achos: 201706713 – Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Rhagfyr 2018

Cafwyd cwyn ynghylch ymddygiad aelod (“y Cynghorydd”) o Gyngor Sir Powys (“y Cyngor”) yng nghyswllt camarwain preswylydd lleol (“yr Achwynydd”), sef bod y Cynghorydd wedi gwneud sylw ynghylch gwrthwynebu i gais cynllunio. Dywedodd yr Achwynydd bod y Cynghorydd yn ceisio sicrhau mantais i’r sawl oedd yn gwneud cais ac yn ceisio atal preswylwyr lleol rhag gwrthwynebu.

Cynhaliwyd ymchwiliad er mwyn gweld a oedd y Cynghorydd wedi torri rhannau o’r Cod sy’n ymwneud â dwyn anfri a defnyddio ei safle i roi mantais iddo ef ei hun neu i rywun arall.

Penderfynodd yr Ombwdsmon nad oedd tystiolaeth i awgrymu bod y Cynghorydd wedi torri’r Cod Ymddygiad yn ystod galwad ffôn gyda’r Achwynydd.

## Nid oes angen gweithredu

Dinas a Sir Abertawe – Dyletswydd i gynnal y gyfraith
Rhif yr Achos: 201802771 – Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Tachwedd 2018
Fe wnaeth yr Ombwdsmon ymchwilio i gŵyn a oedd yn nodi efallai fod Cynghorydd ("y Cynghorydd") wedi torri'r Cod Ymddygiad drwy hawlio gormod o gostau teithio.

Ar ôl ystyried yr wybodaeth a oedd ar gael iddo, daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad – er bod tystiolaeth bod yr aelod ar gam a'i fod wedi hawlio gormod o dreuliau – bod rhaid ystyried diffyg profiad yr aelod a'i fod yn anghyfarwydd â'r broses; bod yr aelod wedi peidio â hawlio digon o dreuliau ar sawl achlysur; gwerth y gordaliadau; ac ymddiheuriad yr aelod a'i barodrwydd i dalu'r arian yn ôl. Gan ystyried yr uchod, penderfynodd yr Ombwdsmon na ddylid cymryd camau pellach.

Cyngor Cymuned Sili a Larnog – hybu cydraddoldeb a pharch
Rhif yr Achos: 201705246 – Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Tachwedd 2018
Cafodd yr Ombwdsmon gŵyn bod aelod ("yr Aelod"), yn ystod cyfarfod Cyngor Cymuned Sili a Larnog ("y Cyngor"), wedi torri'r Cod Ymddygiad ("y Cod"). Honnwyd bod yr Aelod wedi gwneud sylwadau a oedd yn wahaniaethol ac yn rhagfarnu ar sail oedran am ymgeisydd a oedd wedi gwneud cais i gael ei gyfethol i'r Cyngor.

Casglwyd gwybodaeth gan y Cyngor a chynhaliwyd cyfweliadau gyda thystion a oedd yn y cyfarfod, yn ogystal â'r Aelod.

Canfu'r archwiliad bod yr Aelod wedi gwneud y sylwadau hyn, ond doedd dim tystiolaeth i awgrymu bod ei sylwadau wedi dylanwadu ar y canlyniad ar gyfer yr ymgeisydd. Ar ben hynny, dim ond ers chwe wythnos oedd yr Aelod wedi cael ei ethol i'r Cyngor, nid oedd y Cod wedi cael ei esbonio iddo, ac nid oedd wedi cael unrhyw hyfforddiant ar ei gynnwys. Hefyd, pan gafodd ei gyfweld, fe wnaeth yr Aelod ymddiheuro am y sylwadau, dywedodd na fyddai'n gwneud sylwadau o'r fath eto, ac fe gadarnhaodd ei fod wedi cael hyfforddiant ynghylch y Cod ers hynny.

Er bod yr Ombwdsmon wedi awgrymu bod yr Aelod yn ystyried mynd ar gwrs hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth, daeth i'r casgliad na fyddai hynny er budd y cyhoedd ac, o dan Adran 69(4)(b) Deddf Llywodraeth Leol 2000, na fyddai angen cymryd unrhyw gamau pellach yng nghyswllt y materion y cafwyd cwyn yn eu cylch.

Cyngor Sir Powys – Hybu cydraddoldeb a pharch
Rhif yr Achos: 201706847 – Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Rhagfyr 2018
Fe wnaeth yr Ombwdsmon ymchwilio i gŵyn bod Cynghorydd ("y Cynghorydd") wedi torri'r Cod Ymddygiad drwy beidio ag anrhydeddu addewid i Banel Dyfarnu Cymru, sef y byddai'n anfon llythyr ysgrifenedig at ddau gydweithiwr yn ymddiheuro iddynt.

Ar ôl ystyried yr wybodaeth a oedd ar gael iddo, gan gynnwys sylwadau'r Aelod yn nodi ei fod wedi ysgrifennu a phostio'r llythyrau, daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad na ddylid cymryd camau pellach, gan fod yr Aelod wedi cytuno i ailysgrifennu'r llythyrau a'u hanfon eto.

Cyngor Tref Porth Tywyn a Phen-bre – Datgelu a chofrestru buddiannau
Rhif yr Achos: 201704860 – Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Hydref 2018
Cafodd yr Ombwdsmon gŵyn bod Aelod ("Aelod") o Gyngor Tref Porth Tywyn a Phen-bre ("y Cyngor") wedi torri'r Cod Ymddygiad ("y Cod") drwy gymryd rhan mewn trafodaethau a phleidlais mewn dau gyfarfod ynghylch materion yn ymwneud â chyn-aelod o staff y Cyngor a oedd wedi cwyno am yr Aelod yn ddiweddar.

Cafodd yr Aelod ei gyfweld, yn ogystal â'r Cynghorydd a wnaeth y gŵyn amdano ac aelod arall o'r Cyngor. Yn y cyfweliad, dywedodd yr Aelod ei fod wedi gofyn am gyngor gan y Clerc ynglŷn ag a fyddai'n cael cymryd rhan yn y trafodaethau, a rhoddwyd gwybod iddo ei fod yn cael. Ceisiodd ei gyngor cyfreithiol ei hun ynglŷn â'r mater hefyd. Dywedodd yr Aelod ei fod yn anymwybodol y gallai perthynas bersonol agos gael ei hystyried yn fudd personol pan oedd yn ymwneud â rhywun y gallai aelod fod "mewn anghydfod" ag ef. Dywedodd yr Aelod nad oedd yn teimlo ei fod mewn anghydfod â'r aelod hwnnw o staff y Cyngor ar y pryd. Fodd bynnag, fe wnaeth yr Aelod gydnabod y byddai'n delio â materion tebyg yn wahanol iawn yn y dyfodol.

Daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad bod ymddygiad yr Aelod mewn perthynas â'r ddau gyfarfod yn awgrymu ei fod wedi mynd yn erbyn y paragraffau yn y Cod Ymddygiad sy'n ei gwneud yn ofynnol ei fod yn datgan buddiant a gadael yr ystafell lle y bo hynny'n briodol. Fodd bynnag, o ystyried bod gweithredoedd yr Aelod yn gamsyniol yn hytrach na bwriadol, daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad na fyddai cyfeirio'r mater at y pwyllgor safonau er budd y cyhoedd.

### Cyngor Gwynedd – Datgelu a chofrestru buddiannau
### Rhif yr Achos: 201702769 – Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Tachwedd 2019

Cafodd yr Ombwdsmon gŵyn a oedd yn nodi bod Cynghorydd ("y Cynghorydd") wedi torri'r Cod Ymddygiad i aelodau. Honnwyd bod y Cynghorydd wedi torri'r Cod pan beidiodd â datgan ei fuddiant llesiannol mewn eiddo wedi'i gofrestru dan ei enw, ac fe nododd nad oedd ganddo unrhyw fuddiannau llesiannol mewn tir yn ardal y Cyngor. Honnwyd bod y Cynghorydd wedi peidio â llofnodi a dychwelyd ffurflen datgan buddiannau'r Cyngor, er ei fod wedi cael sawl cyfle i wneud hynny.

Fe wnaeth yr Ombwdsmon ymchwilio i weld a oedd gweithredoedd y Cynghorydd yn torri paragraffau 18.5.1 a 18.4.1(b) o God Ymddygiad Gwynedd. Ym mhob achos, rhaid i aelodau ystyried a oes ganddynt fuddiant personol ac a yw'r Cod Ymddygiad yn gofyn iddynt ddatgan y buddiant hwnnw. Mae'n rhaid i aelodau gydnabod bod ganddynt fuddiant personol mewn unrhyw ran o fusnes yr awdurdod os yw'n ymwneud ag unrhyw dir y mae ganddynt fuddiant llesiannol ynddo yn ardal eu hawdurdod, neu os yw'n debygol o effeithio ar y tir hwnnw. Mae'n rhaid i Aelodau gofrestru buddiannau ariannol neu fel arall cyn pen 28 diwrnod i gael eu hethol i'r swydd, drwy ddarparu hysbysiad ysgrifenedig o'u buddiannau i Swyddog Monitro'r awdurdod.

Oherwydd bod y Cynghorydd yn aelod newydd pan ddigwyddodd hyn, ac oherwydd mai hwn oedd y tro cyntaf i unrhyw un dynnu sylw'r Ombwdsmon at ei ymddygiad, a'i fod wedi llenwi'r ffurflen datgan buddiannau ers hynny – penderfynodd yr Ombwdsmon beidio â chymryd camau pellach yn erbyn y Cynghorydd.

### Cyngor Cymuned Llandegla – Uniondeb
### Rhif yr Achos: 201704189 – Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Hydref 2018

Cafwyd cwyn am ymddygiad aelod ("y Cynghorydd") o Gyngor Cymuned Llandegla ("y Cyngor") mewn dau o gyfarfodydd y Cyngor ("y Cyfarfod Cyntaf" a'r "Ail Gyfarfod") ac am ei ymddygiad yng nghyswllt cyflwyno cais am gyllid heb awdurdod y Cyngor.

Cafodd ymchwiliad ei gynnal er mwyn ystyried a oedd y Cynghorydd
wedi torri rhannau o'r Cod sy'n ymwneud â pharch ac ystyriaeth, bwlio ac aflonyddu a dwyn anfri.

Penderfynodd yr Ombwdsmon nad oedd tystiolaeth i awgrymu bod y Cynghorydd wedi torri'r Cod yn yr Ail Gyfarfod nac yng nghyswllt y cais am gyllid. Canfu nad oedd angen gweithredu yng nghyswllt ei ymddygiad yn y Cyfarfod Cyntaf.

Cyngor Cymuned Cegidfa – Atebolrwydd a bod yn agored
Rhif yr Achos: 201707849 – Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Rhagfyr 2018

Ymchwiliodd yr Ombwdsmon i gŵyn a wnaed am aelod o Gyngor Cymuned Cegidfa ("y Cynghorydd") yn nodi efallai ei fod wedi torri'r Cod Ymddygiad drwy gamarwain aelodau o'r cyhoedd yng nghyswllt proses y Cyngor o ystyried cais cynllunio ("y Cais") ac achos o ddatgan buddiant yn ystod cyfarfodydd y Cyngor ar 21 Tachwedd a 20 Rhagfyr **2017**.

Daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad nad oedd tystiolaeth i awgrymu bod y Cynghorydd wedi rhoi cyngor nad oedd yn ddidwyll i aelod o'r cyhoedd, a doedd dim tystiolaeth ei fod wedi mynd ati'n fwriadol i gamarwain unrhyw aelod o'r cyhoedd. O ganlyniad, fe benderfynodd na fyddai mynd ar ôl y mater hwn ymhellach er budd y cyhoedd.

Roedd yr Ombwdsmon yn cytuno, oherwydd bod y Cynghorydd wedi datgan diddordeb yn y Cais yn y ddau gyfarfod, bod ganddo fuddiant personol ynddo. Ar ben hynny, roedd o'r farn y byddai aelod rhesymol o'r cyhoedd, a oedd yn gwybod am y buddiant hwn, yn debygol o'i ystyried mor arwyddocaol i'r graddau y byddai'n debygol o ddylanwadu ar ei farn. Felly, dylai'r Cynghorydd fod wedi gadael yr ystafell pan oedd y mater yn cael ei drafod. Fodd bynnag, er bod y Cynghorydd wedi aros yn y cyfarfod, doedd dim tystiolaeth ei fod wedi defnyddio ei safle mewn modd amhriodol, wedi tarfu ar y broses ddemocrataidd nac wedi dylanwadu ar drafodaeth y Cyngor a'i benderfyniad ynghylch y Cais yn y pen draw. Felly, penderfynodd yr Ombwdsmon nad oedd angen cymryd camau mewn perthynas â'r materion yr ymchwiliwyd iddynt, er ei fod yn argymell y dylai'r Cynghorydd ystyried ei ddyletswyddau yn ofalus o dan y Cod Ymddygiad, yn enwedig y rhwymedigaeth i adael cyfarfod pan mae ganddo fuddiant niweidiol mewn mater, a gofyn am gyngor os yw'n ansicr o oblygiadau hynny.

## Cyfeiriwyd at Bwyllgor Safonau

Nid oes crynodebau yn gysylltiedig â'r canfyddiad hwn

## Cyfeiriwyd at Banel Dyfarnu Cymru

Nid oes crynodebau yn gysylltiedig â’s canfyddiad hwn